# Y Brifysgol Agored yng Nghymru
# The OU in Wales

## Cwestiynau Cyffredin | Frequently Asked Questions

TAR | PGCE

2025-2026



The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

**Sylwch y gall y wybodaeth yn y ddogfen hon newid ar fyr rybudd. Gwiriwch ein gwefan am ddiweddariadau.**

Rydym yn argymell eich bod yn darllen y ddogfen hon cyn ymgeisio.

Yna defnyddiwch ein Holiadur Statws Cais i benderfynu ar ba gam y mae eich cais.

**Please note that the information in this document may change at short notice. Check our website for updates.**

We recommend that you read this document before applying.

Then use our Application Status Questionnaire to determine which stage your application is at.

Cliciwch y tŷ i ddychwelyd nôl i'r tudalen 'Cynnwys'.
Click the Home icon to return to the 'Content's page

# Cynnwys

Mae hon yn ddogfen ryngweithiol, cliciwch ar y dolenni i fynd â chi i'r adran berthnasol.


1. Beth yw'r TAR?
2. Pa lwybr sy'n iawn i mi?
    a. Y Llwybr Cyflogedig
    b. Y Llwybr Cyflogedig Heb Ardystiad
    c. Y Llwybr Rhan-Amser
3. Cwis Gofynnion Mynediad
4. Gofynnion Mynediad
5. Preswyliad y DU
6. Myfyrwyr Rhyngwladol
7. Y Gymraeg
8. Amlinelliad o'r Cwrs
9. Ymarfer Dysgu
10. Cyflwyno cais a'r broses recriwtio
11. Ffioedd
12. Cwestiynau Cyflym


The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Contents

This is an interactive document, click on the links to take you to the relevant section.


1. What is the PGCE?
2. Which pathway is right for me?
    a. The Salaried Route
    b. The Salaried without Endorsement Route
    c. The Part Time Route
3. Entry Requirement Quiz
4. Entry Requirements
5. UK Residency
6. International Students
7. Welsh Language
8. Programme Outline
9. Practice Learning
10. How to Apply and the recruitment process
11. Fees
12. Quick Links

# Beth yw'r TAR?

- **Tystysgrif Addysg ôl-raddedig** (TAR) a gynigir gan y Brifysgol Agored.
- Mae'n gwrs unigryw sy'n galluogi myfyrwyr i ennill cyflog neu gydbwyso ymrwymiadau personol ag astudio. Datblygwyd a'i gyflwynwyd mewn cydweithrediad â Phartneriaeth AGA Y Brifysgol Agored.
- Wrth gwblhau'r cwrs, byddwch yn cysylltu theori ac ymarfer, gan ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad mewn amgylchedd cefnogol i'ch galluogi i fod yn athro cymwysedig llwyddiannus.
- Bydd ein cwrs TAR dwy-flynedd yn caniatáu i chi ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) un ai lefel ysgol gynradd neu Uwchradd a gallwch astudio drwy gyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

# What is the PGCE?

- **Postgraduate Certificate of Education (PGCE)** by the Open University.
- It is a unique course that enables students either to earn a salary or balance personal commitments with studying. Developed and presented in collaboration with The Open University's ITE Partnership.
- On completion of the course, you will have linked theory with practice, developing skills, knowledge and experience in a supportive environment to enable you to be a successful qualified teacher.
- Our two-year PGCE course will allow you to gain Qualified Teacher Status (QTS) at either primary or secondary school level and you can study through the medium of Welsh or English.

# Beth yw'r TAR?

### Sut beth yw astudio gyda'r Brifysgol Agored?

Byddwch yn medru astudio o adref, yn yr ysgol, neu le bynnag fynnoch chi. Byddwch yn defnyddio ein Hamgylchedd Dysgu Rhith i gael mynediad gynnwys modiwl fel gwerslyfrau, fideo a sain, gweithgareddau ymarfer dysgu. Yma, gallwch hefyd rhyngweithio gyda thiwtoriaid a myfyrwyr eraill drwy fforymau ar-lein.

### A fyddaf yn cael cymorth?

Mae'r rhaglen TAR Cymru gyda'r Brifysgol Agored yn cynnwys dysgu o bell, ac mae llawer o gymorth ar gael. Byddwch yn cael Tiwtor Cwricwlwm a fydd yn arbenigo yn eich maes dewisol chi, a byddwch yn cael cymorth a chyngor ymarferol gan fentor yn yr ysgol.

# What is the PGCE?

### What's it like to study with the OU?

You'll be able to study at home, in school, or on the move. You'll use our Virtual Learning Environment to access module content such as textbooks, video and audio, and practice learning activities. It's also where you'll be able to interact with tutors and other students via online forums.

### Will I have support?

The PGCE Wales programme with The Open University involves distance learning, and there is lots of support available. You'll be allocated a Curriculum Tutor who'll be a specialist in your chosen field, and an in-school mentor who'll provide support and practical advice.

# Pa lwybr?

- Cynigir dau lwybr TAR gan y Brifysgol Agored, sef y Llwybr Cyflogedig a'r llwybr Llwybr Rhan-Amser
- Mae'r ddau lwybr yn rhaglenni dwy flynedd.
- Rhaglen dysgu o bell yw hon, felly mae'r cynnwys academaidd yn cael ei gyflwyno trwy gyfuniad o ddysgu annibynnol a mynychu seminarau byw ar-lein gyda'r nos.
- Bydd y tudalennau nesaf yn darparu rhagor o wybodaeth am y ddau lwybr.

# Which route?

- The Open University offers two PGCE routes, the Salaried Route and the Part-Time Route
- Both pathways are two-year programmes.
- This is a distance learning programme, so the academic content is delivered through a combination of independent learning and attendance via live online seminars in the evenings.
- The next pages will provide further details regarding both routes.

# Y Llwybr Cyflogedig

I ddilyn y **Llwybr Cyflogedig** –

- Rydych eisoes yn gweithio mewn ysgol wladol prif ffrwd.
- Mae'n rhaid i'ch ysgol wneud cais i ddod yn ysgol bartner a darparu llythyr ardystio.
- Cyflogaeth **amser llawn** am gyfnod y rhaglen.
- Astudio o amgylch eich dylestswyddau ysgol presennol.
- Talwyd cost astudio gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol i'r Brifysgol. **Nid yw myfyrwyr cyflogedig yn gymwys i dderbyn cymeilliannau na benthyciadau myfyrwyr.**
- **Gweler y ddogfen Nodweddion Allweddol am wybodaeth pellach.**
- Dewch o hyd i fwy o wybodaeth am y llwybr cyflogedig ar wefan y Brifysgol Agored yng Nghymru.

# The Salaried Route

To follow the **Salaried Pathway , you must**

- already work in a mainstream school.
- Your school must complete an application to become a partner school, and submit an endorsement letter on your behalf.
- You must be in **full time** employment for the duration of the programme.
- Study around your current school duties
- The cost of study is fully paid for by The Welsh Government, and paid directly to the University. **Endorsed students are not eligible for incentive grants nor student loans.**
- **See the Key Features Document for further information.**
- You can find more about the salaried programme on the OU in Wales website.

# Y Llwybr Cyflogedig heb ardystiad

- Agored i'r rhai sy'n dymuno addysgu mewn ysgol **Uwchradd** ond nad ydynt yn cael eu cyflogi mewn ysgol ar hyn o bryd.
- Bydd y Tim Bartneriaeth yn ymdrechu i'ch paru ag ysgol. Byddwch yn creu proffil sy'n arddangos eich sgiliau a'ch doniau i rannu â chyflogwyr.
- Noder, mae angen buddsoddiad ariannol sylweddol ar gyfer ysgol i gymeradwyo myfyriwr. Ni allwn warantu y bydd lleoliadau cyflogedig ar gael yn eich pwnc ac mae'n bwysig ein bod yn onest â chi y gall y galw fod yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael. Os na allwn eich paru â lleoliad Cyflogedig, efallai y bydd yn bosibl cynnig lle i chi ar y llwybr rhan amser, ond bydd hyn yn dibynnu a ydych yn bodloni'r gofynion mynediad i'r llwybr rhan amser ac argaeledd lleoedd ar y rhaglen.
- Nid ydym yn annog myfyrwyr i gysylltu ag ysgolion yn uniongyrchol i wneud cais am ardystiadau. Dim ond os oes gennych chi berthynas broffesiynol, arwyddocaol gyfredol/flaenorol ag ysgol y dylai darpar ymgeiswyr cysylltu ag ysgolion.

# The Salaried Route without Endorsement

- Open to those who wish to teach in a **Secondary** school, but are not currently employed in a school.
- The Partnership Team will endeavour to match you with a school. You will create a profile that showcases your skills and talents to share with employers.
- Note, a significant financial investment is required for a school to endorse a student. We cannot guarantee that paid placements will be available in your subject, and it is important that we are honest with you that the demand may be greater than the places available. If we are unable to match you with an endorsed placement, it may be possible to offer you a place on the part-time route, but this will depend on whether you meet the entry requirements for the part-time route and the availability of places on the programme.
- We do not encourage students to contact schools directly to apply for endorsements. Prospective applicants should only contact schools if they have a significant current/previous professional relationship with a school.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Y Llwybr Rhan-Amser

I ddilyn y **Llwybr Rhan-Amser** -

- Yn addas ar gyfer y rhai sy'n newid gyrfa; â chyfrifoldebau gofal neu rhai na allant ymrwymo i oriau llawn amser.
- Mae'r llwybr hwn yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd wrth i chi astudio tuag at eich TAR, a chael profiad addysgu ymarferol rhan-amser mewn ysgol, wrth weithio o gwmpas swydd ran-amser neu ymrwymiadau bywyd eraill.
- Bydd angen i chi ymrwymo i 120 diwrnod o ymarfer dysgu a thua 16 awr o astudio yr wythnos trwy gydol y rhaglen. **Gweler y ddogfen Nodweddion Allweddol am wybodaeth pellach.**
- Dewch o hyd i fwy o wybodaeth am y llwybr rhan-amser ar wefan y Brifysgol Agored yng Nghymru.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# The Part-Time Route

To follow the **Part Time Pathway** -

- Suitable for career changers; those with caring responsibilities or those who cannot commit to full time hours.
- This route offers some flexibility as you study towards your PGCE, whilst gaining part-time practical teaching experience in a school, at the same time as working around a part-time job or other life commitments.
- You will need to commit to 120 days of practice learning and around 16 hours of study per week throughout the programme. **See the Key Features Document for further information.**
- You can find out more about the part-time programme on the OU in Wales website.

# Cwis: Gofynnion Mynediad

Os nad ydych yn siŵr a ydych yn bodloni'r gofynion mynediad ar gyfer y rhaglen TAR o'ch dewis, rydym yn eich gwahodd i gwblhau'r cwis byr hwn:

**Cwis Gofynion Mynediad**

Pan fyddwch wedi gorffen yr holiadur, cliciwch ar 'gweld canlyniadau' a chewch gyngor ar ba gamau y gallwch eu cymryd i fodloni gofynion mynediad y cymhwyster, os nad ydych yn gwneud hynny eisoes.

# Quiz: Entry Requirements

If you're unsure as to whether you meet the entry requirements for your chosen PGCE programme, we invite you to complete this short quiz:

**Entry Requirement Quiz**

When you have finished the questionnaire, please click 'view results' and you will find advice on what steps you can take to meet the qualification entry requirements, if you don't already.

# Gofynnion Mynediad

Mae gofynion mynediad i holl gyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymu yn cael eu penderfynu gan Lywodraeth Cymru ac maen nhw'n rhan o'r **gofynion statudol. Mae hyn yn golygu nad oes hawl i ni dderbyn ceisiadau sydd ddim yn bodloni'r meini prawf hyn.**

Darllennwch dudalen **Tystysgrif Addysg i Raddedigion yng Nghymru** am wybodaeth bellach.

Dilynwch y dolenni am ragor o fanylion ynglŷn â TGAU, Gradd a Dysgu Blaenorol.

# Entry Requirements

Entry requirements for all Initial Teacher Education (ITE) courses in Wales are decided by the Welsh Government, and are statutory requirements. **This means that we're unable to accept applications that do not meet these criteria.**

Please read the **Postgraduate Graduate Certificate of Education in Wales** for further information.

Follow the links for specific details regarding GCSE, Degree and Prior Learning

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Gofynnion Mynediad: TGAU

**Beth os nad ydw i'n bodloni'r gofynion mynediad TGAU?**

**Ar gyfer ceisiadau mis Medi 2025, ni allwn dderbyn profion cywerthedd na chymhwyster Lefel 2 Sgiliau Hanfodol.**

**Os ydych chi'n meddwl bod gennych chi gymhwyster arall y gellir ei dderbyn i fodloni'r gofynion Mynediad, anfonwch dystysgrif atom mewn e-bost a gallwn wirio hyn i chi.**

Fodd bynnag, efallai eich bod eisoes yn meddu ar gymhwyster sy'n gyfateb i'r TGAU (e.g. BTEC, Safon Uwch/Lefel A, modiwl pwnc-benodol).

Rydym yn argymell yn gryf i chi gysylltu â TAR-Cymru@open.ac.uk i drafod a chyn trefnu unrhyw arholiadau/cymhwyster i sicrhau ein bod yn gallu ei dderbyn fel cymwyster cyfatebol.

# Entry Requirements: GCSE

**What if I don't meet the GCSE entry requirements?**

**For September 2025 applications, we cannot accept equivalency tests or the Essential Skills Level 2 qualifications.**

**If you think you may have an alternative qualification which can be accepted to meet the entry requirements, please email us a certificate and we can check this for you.**

However you may already hold a GCSE equivalent qualification (e.g., BTEC/ A Level/ subject-specific module).

We strongly recommend that you contact Wales-PGCE@open.ac.uk to discuss and to check before arranging any exams/qualifications to ensure that we can accept it as an equivalent qualification.

# Gofynnion Mynediad: Gradd

**A oes angen imi fod â gradd anrhydedd lawn?**

**Rhaid** i bob ymgeisydd sy'n dymuno gwneud TAR feddu ar Radd Israddedig Anrhydedd lawn e.e. BA (Anrh) neu BSc (Anrh) neu gyfwerth gyda dosbarthiad. Mae angen i hyn fod yn 360 credyd, gydag o leiaf 120 o gredydau wedi'u hastudio ar Lefel 6.

Gallwn ystyried rhai cywertheddau i raddau – e.e. cymhwyster Meistr neu ACCA (rhaid i'r rhain fod yn gyfwerth â chymhwyster lefel 6 ac yn gydnabyddedig). Rydym yn trin y rhain fesul achos.

Os nad oes gennych radd Baglor lawn, yna efallai y gallwch ddefnyddio'ch cymwysterau presennol fel credydau **tuag at radd**. Mae offeryn defnyddiol y gallwch ei ddefnyddio i wirio a yw cymhwyster o astudiaeth flaenorol yn gymwys i'w drosglwyddo. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n tudalen **trosglwyddo credyd.**

Sylwch nad ydym yn derbyn trosglwyddiau Credyd i'r rhaglen TAR a rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r ddwy flynedd lawn.

# Entry Requirements: Degree

**Do I need to have a full honours degree**

**All** candidates wishing to do a PGCE must hold a full Honors Undergraduate Degree e.g. BA (Hons) or BSc (Hons) or equivalent with classification. This needs to be 360 credits, with at least 120 credits studied at Level 6.

We can consider some equivalences to some degree - e.g. a Masters or ACCA qualification (these must be equivalent to a level 6 qualification and recognised). We handle these on a case-by-case basis.

If you do not have a full Bachelor's degree, then you may be able to use your existing qualifications as credits **towards a degree**. There is a useful tool you can use to check whether a qualification from previous study is transferable. For more information, visit our **credit transfer** page.

Please note that we do not accept credit transfers for entry into the PGCE programme. Candidates are required to complete the full two-year programme to earn the PGCE qualification.

# Gofynnion Mynediad: Gradd

**Beth yw'r gofynion mynediad lleiaf**

Ar gyfer y llwybr Uwchradd a Chynradd Cyflogedig fe allwn dderbyn 3ydd dosbarth fel lleiafswm. Ond, oherwydd y galw mawr am leoedd, mae mynediad i'n rhaglen gynradd ran-amser yn gyfyngedig i ymgeiswyr sydd â 2:2 neu uwch ar lefel gradd.

**Rwyf eisiau dysgu yn y sector Uwchradd, a yw fy ngradd yn berthnasol?**

I addysgu Uwchradd, rhaid i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth helaeth o'r pwnc y maent yn dymuno ei addysgu. Rhaid i chi feddu ar radd sydd ag o leiaf 50% o berthnasedd i'r pwnc* os ydych am addysgu i ddod yn athro ysgol uwchradd. Mae hyn oherwydd fel athro, bydd angen i chi addysgu'ch pwnc hyd at lefel arholiad cyhoeddus.

*Gofynion Mynediad Sylfaenol Llywodraeth Cymru o fis Tachwedd 2022

# Entry Requirements: Degree

**What are the minimum entry requirements**

For the Salaried Secondary and Primary routes, we can accept a 3rd class degree as a minimum. But due to high demand for places, entry to our part-time Primary Programme is limited to those with a 2:2 or above at degree level.

**I want to teach in the Secondary sector, is my degree relevant?**

To teach Secondary, applicants must demonstrate extensive knowledge of the subject they wish to teach. You must hold a degree with at least 50% relevance to the subject* if you want to teach to become a secondary school teacher (learners aged 12 – 16). This is because as a teacher, you will need to teach your subject up to public examination level.

*Welsh Government Basic Entry Requirements from November 2022

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Gofynnion Mynediad: Gradd

**A oes angen imi fod â gradd yn y Gymraeg i ddysgu Cymraeg yn y sector Uwchradd?**

I ddysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg rhaid i chi feddu ar radd anrhydedd (unrhyw bwnc) a bod yn siaradwr Cymraeg rhugl sy'n gallu siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg i safon uchel.

Er mwyn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg mae gradd yn y Gymraeg yn ddymunol, ond gellir ystyried gradd gysylltiedig.

Sylwer: Os dymunwch gwblhau unrhyw agwedd ar eich cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid i chi o leiaf gwblhau eich datganiad ategol yn Gymraeg, neu'n ddelfrydol defnyddio'r ffurflen gais Gymraeg. Rhaid i bob ymgeisydd ar gyfer TAR Cymraeg Uwchradd gwblhau eu cais yn Gymraeg. Mae'r sesiynau a addysgir ar gyfer y cwrs hwn trwy gyfrwng y Gymraeg. Gallwch ddewis pa iaith yr hoffech chi gyflwyno eich asesiad.

# Entry Requirements: Degree

**Do I need to have a degree in Welsh to teach Welsh at Secondary?**

To teach Welsh as a second language in an English medium secondary school you must hold an honours degree (any subject) and be a fluent Welsh speaker who can speak, write and read Welsh to a high standard.

To teach Welsh as a first language in a Welsh medium secondary school a degree in Welsh is desirable, however a related degree may be considered.

Note: If you wish to complete any aspect of your course through the medium of Welsh, you must as a minimum complete your supporting statement in Welsh, or ideally use the Welsh language application form. All candidates for PGCE Secondary Welsh must complete their application in Welsh. Taught sessions for this course are through the medium of Welsh. You can choose which language you would like to submit your assessment.

# Gofynnion Mynediad: Dysgu Blaenorol

**Mae gennyf gymhwyster TAR yn barod ond ni chefais SAC, a ydych yn cynnig llwybr SAC yn unig?**

Mae ein TAR yn rhaglen 2 flynedd sy'n arwain at SAC ar ôl ei chwblhau'n llwyddiannus. Nid ydym yn cynnig opsiwn llwybr cyflym neu SAC yn unig. Nid oes cwrs trosi Addysg Bellach ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd.

# Entry Requirements: Prior Learning

**I already have a PGCE qualification, but I didn't get a QTS, do you offer a QTS only route?**

Our PGCE is a 2-year programme leading to QTS on successful completion. We do not offer a fast track or QTS only option. There is no FE conversion course available in Wales at present.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Preswyliad

- Bydd angen i chi gael yr hawl i aros a gweithio yn y DU am gyfnod y rhaglen.
- Mae rhaid i fyfyrwyr rhan amser fyw yng Nghymru.
- Fe all myfyrwyr cyflogedig fyw yng Nghymru neu Loegr.
- Mae rhaid i **bob** myfyriwr gwblhau pob lleoliad mewn ysgolion prif ffrwd yng Nghymru.
- **Fel rhan o'r broses dderbyn, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu prawf o breswyliad.**

# Residency

- You will need to have the right to remain and work in the UK for the duration of the programme.
- Part-time students must live in Wales.
- Salaried students can live in Wales or England
- **All students** must complete all placements in mainstream schools in Wales.
- **As part of the admissions process, applicants are required to provide proof of residence.**

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Myfyrwyr Rhyngwladol

**Cwblhais fy addysg yn llawn/yn rhannol, tu allan i'r DU. Sut mae fy nghymwysterau yn cymharu?**

Cysylltwch a Chanolfan Wybodaeth Genedlaethol y DU ar gyfer gwerthuso cymwysterau a sgiliau rhyngwladol (UK ENIC). Gallant ddarparu Datganiad Cymharedd i ddangos a yw eich cymwysterau yn bodloni'r gofynion derbyn. Mynnwch dystysgrif ENIC i sicrhau eich bod yn bodloni'r gofynion cyn gwneud cais: https://www.enic.org.uk

Os nad yw Saesneg yn un o'ch ieithoedd brodorol a'ch bod am astudio TAR yn y DU, rhaid i chi allu dangos lefel uchel o allu yn yr iaith Saesneg. Bydd angen i chi gyflawni sgôr Systemau Profi Iaith Saesneg Rhyngwladol (IELTS) o 7+ ym mhob adran o'r prawf.

**Darllennwch hefyd yr adran Preswyliad y ddogfen hon.**

Nid ydym yn cynnig nawdd i astudio'r rhaglen TAR.

# International Students

**I completed my education fully/partly, outside the UK. How do my qualifications compare?**

Contact the UK National Information Center for the evaluation of international qualifications and skills (UK ENIC). They can provide a Statement of Comparability to show whether your qualifications meet the admission requirements. Get an ENIC certificate to ensure you meet the requirements before applying: https://www.enic.org.uk

If English is not one of your native languages and you want to study PGCE in the UK, you must be able to demonstrate a high level of ability in the English language. You will need to achieve an International English Language Testing Systems (IELTS) score of 7+ in each section of the test.

**Please also read the Residency Section of this document.**

We do not offer sponsorship to study the PGCE programme.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Y Gymraeg

**Oes angen i mi allu siarad Cymraeg?**

Nid yw bod yn siaradwr Cymraeg ar ddechrau'r rhaglen yn hanfodol. Fodd bynnag bydd gofyn i chi wella eich sgiliau Cymraeg i allu ddarparu elfennau o Gwricwlwm i Gymru. Byddwn yn cefnogi eich datblygiad yn ystod eich amser ar y rhaglen.

**Mae addysgu o fewn y cyd-destun Cymreig (e.e. Cwricwlwm i Gymru) yn un o ofynion rheoleiddio achrededig y rhaglen. O ganlyniad, RHAID cwblhau pob lleoliad mewn ysgol bartner yng Nghymru.**

# Welsh Language

**Do I need to be able to speak Welsh?**

Being a Welsh speaker at the start of the program is not essential. However, you will be required to improve your Welsh skills to be able to provide elements of a Curriculum for Wales. We will support your development during your time on the programme.

**Teaching within the Welsh context (e.g. Curriculum for Wales) is one of the accredited regulatory requirements of the programme. As a result, all placements MUST be completed at a partner school in Wales.**

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Amlinelliad o'r cwrs

- Ni fyddwch yn mynychu campws y brifysgol. Cynhelir yr elfen academaidd ar-lein, ac ymarfer dysgu mewn ysgolion partner.
- Bydd gennych fynediad i wefan o ddeunyddiau ar-lein rhyngweithiol y gallwch eu hastudio.
- Byddwch yn astudio 2 modiwl (un modiwl pob blwyddyn) sy'n cynnwys 6 uned fesul modiwl.
- Byddwch yn cymryd rhan mewn sesiynau byw ar-lein rheolaidd a addysgir gan diwtoriaid cwricwlwm. Mae'r rhain fel arfer yn digwydd gyda'r nos.
- Byddwch hefyd yn cael cefnogaeth y fforymau dysgu, lle byddwch yn rhannu adnoddau a syniadau gyda'ch tiwtoriaid a'ch cyfoedion.
- Cewch eich asesu gan diwtor ymarfer a fydd yn cwblhau pedwar ymweliad asesu rhithwir trwy gydol y rhaglen.

# Programme Outline

- You will not attend the university campus. The academic element is held online, and learning practice in partner schools.
- You will have access to a website of interactive online materials that you can study.
- You will study 2 modules (one module each year) which contain 6 units per module.
- You will participate in regular live online sessions taught by curriculum tutors. These usually happen at night.
- You will also have the support of the learning forums, where you will share resources and ideas with your tutors and peers.
- You will be assessed by a practice tutor who will complete four virtual assessment visits throughout the programme.

# Amlinelliad o'r cwrs

**Faint o amser fydd angen i mi dreulio yn astudio?**

Mae pob modiwl TAR yn cynnwys astudiaeth academaidd trwy seminarau ar-lein dan arweiniad eich tiwtor cwricwlwm; cyfnod o brofiad ysgol; a chyflwyno portffolio o dystiolaeth sy'n cynnwys ymatebion i dasgau academaidd ac adroddiadau o'ch profiad ysgol. Ym mhob modiwl, cewch eich asesu trwy amrywiaeth o dasgau, gan gynnwys traethodau ysgrifenedig.

Ar y **llwybr rhan-amser,** byddwch yn astudio hyd at 16 awr yr wythnos, naill ai mewn astudiaeth academaidd neu ar eich profiad ysgol. Ar y **llwybr cyflogedig**, byddwch yn astudio o amgylch eich dylestswyddau ysgol presennol.

# Programme Outline

**How much time will I need to spend in study ?**

Every PGCE module includes academic study through online seminars led by your curriculum tutor; period of school experience; and submit a portfolio of evidence which includes responses to academic tasks and reports of your school experience. In each module, you will be assessed through a variety of tasks, including written essays.

On the **part-time route**, you will study up to 16 hours a week, either in academic study or on your school experience. On the **salaried route**, you will study around your current school duties.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Amlinelliad o'r cwrs: Rhan Amser

**A allaf weithio tra byddaf yn cwblhau TAR Rhan Amser?**

Mae'r rhaglen **ran-amser** yn caniatáu i athrawon dan hyfforddiant barhau â chyflogaeth neu ymrwymiadau rhan-amser wrth astudio'r rhaglen. Mae llawer o fyfyrwyr yn gallu cyfuno astudio yn llwyddiannus ochr yn ochr â'u hymrwymiad bywyd arall fel gwaith neu gyfrifoldebau gofalu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod y cwrs yn gwbl hyblyg gan fod yn rhaid i ni fodloni meini prawf CGA a Llywodraeth Cymru sy'n golygu bod rhai nodweddion o'r cwrs yn ofynion statudol.

Meddyliwch yn ofalus sut y gallwch gydbwyso eich bywyd â'r rhaglen. Fel cymhwyster proffesiynol, mae'n debyg y bydd angen i chi wneud rhai newidiadau i'ch ffordd o fyw arferol ac mae'n bwysig bod yn realistig ynghylch astudio rhan-amser wrth gydbwyso gwahanol ymrwymiadau!

Rydym yn annog pobl i beidio â cheisio gweithio'n llawn amser yn ystod y rhaglen hon oherwydd yr angen i astudio am tua 2-3 diwrnod yr wythnos drwy gydol y rhaglen (nid dyddiau lleoliad yn unig!). Mae hyn yn bwysig ar gyfer lles myfyrwyr a rheoli llwyth gwaith.

# Programme Outline: Part Time

**Can I work while I complete PGCE Part Time?**

The **part-time** program allows student teachers to continue employment or part-time commitments while studying the programme. Many students are able to successfully combine studying alongside their other life commitments such as work or caring responsibilities. However, this does not mean that the course is completely flexible as we have to meet the criteria of CGA and the Welsh Government which means that some features of the course are statutory requirements.

Think carefully about how you can balance your life with the programme. As a professional qualification, you will probably need to make some changes to your normal lifestyle and it is important to be realistic about studying part-time while balancing different commitments!

We discourage people from trying to work full time during this program due to the need to study for around 2-3 days a week throughout the program (not just placement days!). This is important for student welfare and workload management.

# Ymarfer Dysgu

**Sut mae lleoliadau ysgol yn gweithio?**

Rhaid i bob myfyriwr gwblhau ei ymarfer dysgu mewn ysgolion partner. **Ni allwn weithio gyda phob ysgol yng Nghymru.** Gall eich ysgol ddod o hyd i ragor o wybodaeth yma: [Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored | Y Brifysgol Agored yng Nghymru (open.ac.uk)]

Bydd **myfyrwyr rhan-amser** yn gwneud eu profiad ymarferol mewn ysgol bartner. Mae nifer y diwrnodau'n cynyddu wrth i chi symud ymlaen trwy'r rhaglen. Gweler y ddogfen [Nodweddion Allweddol] am wybodaeth pellach.

Bydd **myfyrwyr cyflogedig** yn ymgymryd â phrofiad ymarferol ar yr un pryd ag astudio. Bydd angen cwblhau ail brofiad dysgu yn y flwyddyn gyntaf. Gweler y ddogfen [Nodweddion Allweddol] am wybodaeth pellach.

Disgwylir i fyfyrwyr fynychu lleoliadau mewn dwy ysgol wahanol. Trefnwyd y lleoliadau gan tim y Bartneriaeth a'n nod yw cadarnhau eich lleoliadau 2 i 4 wythnos cyn i'r ffenestr lleoliadau agor.

# Practice Learning

**How do school placements work?**

All students must complete their practice learning in partner schools. **We cannot work with every school in Wales.** Your school can find more information here: [OU ITE Partnership | Open University in Wales]

**Part-time students** will complete their practical experience at a partner school. The number of days increases as you progress through the programme. See [Key Features of Part Time] for further information.

**Salaried students** will undertake practical experience at the same time as studying. A second learning experience will need to be completed in the first year. See the [Key Features] document for further information.

All students are expected to attend placements at two different schools. The locations are organised by the Partnership team and we aim to confirm your placements 2-4 weeks before the placement window opens.

# Ymarfer Dysgu

**Rwyf yn gweithio mewn ysgol ond yn dilyn y llwybr rhan amser. A allaf wneud lleoliad yn fy ysgol bresennol?**

Os na all eich ysgol bresennol eich ardystio a'ch bod am barhau i weithio yn yr ysgol hon, yna mae'r llwybr Rhan-Amser yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd oherwydd gallwch gael profiad addysgu ymarferol rhan-amser mewn ysgol ochr yn ochr â'ch ymrwymiadau presennol. Rhaid i chi ddilyn gofynion y rhaglen ran-amser a bydd angen i chi gael eich goruchwylio gan athro dosbarth yn ystod cyfnodau ymarfer dysgu TAR bob amser.

Os yw eich ysgol wedi'i derbyn fel un o'n hysgolion Partner, yna byddwch yn gallu gwneud 2 o 3 o'ch lleoliadau ysgol yn eich ysgol bresennol a byddai angen i chi drefnu hyn o amgylch eich cyflogaeth â thâl mewn cytundeb â'ch ysgol. Mae'n bwysig eich bod chi a'ch ysgol yn glir ynghylch y rhaniad rhwng eich dyletswyddau cyflogaeth a'ch amser lleoliad TAR gyda gofynion rhaglen penodol sydd eu hangen yn ystod yr amseroedd hynny (lle na fyddwch ar gael ar gyfer dyletswyddau cyflogaeth).

# Practice Learning

**I work in a school but follow the part-time route. Can I do a placement at my current school?**

If your current school cannot endorse you and you want to continue working in this school, then the Part-Time route offers some flexibility as you can gain part-time practical teaching experience in a school alongside current commitments. You must follow the requirements of the part-time program and you will always need to be supervised by a class teacher during PGCE learning practice periods

If your school has been accepted as one of our Partner schools, then you will be able to do 2 of 3 of your school placements at your current school. It is important that you and your school are clear about the division between your employment duties and your PGCE placement time with specific program requirements required during those times (where you will not be available for employment duties).

# Ymarfer Dysgu

Wrth drefnu lleoliadau, ystyrir ffactorau amrywiol, er mwyn sicrhau bod gennych y profiad sydd ei angen i fodloni SAC. Nid yw'n ofynnol bod angen car arnoch i ymuno â'r rhaglen, ond p'un a ydych yn gyrru neu'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, rydym yn gwneud pob ymdrech i'ch paru ag ysgol bartner mor agos â phosibl at eich cyfeiriad cartref cofrestredig, felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw newidiadau.

Mae'n bosibl y cewch eich lleoli hyd at 60 munud (ac mewn rhai amgylchiadau eithriadol, 90 munud) o'ch cyfeiriad cartref (cyfrifir hyn gan bellter teithio uniongyrchol mewn car). Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud trefniadau teithio addas i'ch ysgol bartner a bydd angen i chi fod ar gael am ddiwrnodau ysgol llawn yn unol ag oriau cyswllt arferol athrawon yr ysgol. Rydym yn gwneud pob ymdrech i gadarnhau eich lleoliad ysgol 4 wythnos cyn i chi fod i ddechrau ar eich lleoliad.

# Practice Learning

When arranging placements, various factors are considered, in order to ensure that you have the experience required to meet QTS. You don't need a car to join the programme, but whether you drive or use public transport, we make every effort to match you with a partner school as close to your address as possible registered home, so it is important that you keep us up to date with any changes.

You may be located up to 60 minutes (and in some exceptional circumstances, 90 minutes) from your home address (this is calculated by direct travel distance by car). It is your responsibility to make suitable travel arrangements to your partner school and you will need to be available for full school days in accordance with the school's teachers' normal contact hours. We make every effort to confirm your school placement 4 weeks before you are due to start your placement.

# Cyflwyno Cais

I gyflwyno cais, mae rhaid cwblhau ffurflen gais ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan Cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion Y Brifysgol Agored .Gweler y ddogfen Canllaw Gwneud Cais am help i gwblhau'r ffurflen.

**Beth yw'r broses ymgeisio a'r dyddiad cau?**

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darllen y canllawiau yn ofalus i'ch cefnogi chi i gwblhau'r ffurflen gan fod gwybodaeth goll yn debygol o arwain at ddychwelyd eich ffurflen atoch.

**Mae dyddiadau cau yn cael eu hysbysebu ar ein gwefan** Cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion Y Brifysgol Agored **a chadwn yr hawl i gau ceisiadau yn gynt na'r dyddiadau cyhoeddedig os nad oes lleoedd ar gael mwyach**. Sylwch na allwn dderbyn ceisiadau ar ôl y dyddiad cau.

# Applying

To apply, it is necessary to complete an online application form which is available on our website Course Certificate University Graduate Education Open . See the Application Guidance document for help with completing the form.

**What is the application process and deadline?**

Make sure you read the guidelines carefully to support you in completing the form as missing information is likely to result in your form being returned to you.

Closing dates are advertised on our Postgraduate Certificate in Education in Wales | Open University website and we reserve the right to close applications earlier than the published dates if places are no longer available. Please note that we cannot accept applications after the closing date.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Cyflwyno Cais

Os yw eich cais yn gyflawn a'ch bod wedi cyflwyno'r ddogfennaeth berthnasol, bydd y tîm yn eich rhoi ar restr fer cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Ar ôl cyrraedd y rhestr fer yn llwyddiannus, cewch eich gwahodd i gyfweliad ar-lein 30-45 munud gydag aelod o'r tîm cwricwlwm. Cynhelir cyfweliadau bob bore Iau.

**Nid oes gennyf fy nhystysgrifau addysgol?**

Fel rhan o'r broses ymuno, mae'n ofynnol i ymgeiswyr e-bostio copïau o ansawdd uchel o'r holl gymwysterau addysgol a dogfennau ategol. Mae'r rhain yn cynnwys tystysgrifau TGAU, Tystysgrifau Lefel A (os gofynnir amdanynt), Tystysgrif Gradd a Thrawsgrifiad, Tystysgrif Geni, ID Ffotograff, a phrawf o breswyliad.

Os nad oes gennych eich tystysgrifau addysgol, bydd angen i chi gysylltu a'r byrddau arholi er mwyn drefnu tystysgrif neu lythyr cadarnhaad electronig.

# Applying

If your application is complete and you have submitted the relevant documentation, the team will shortlist you as soon as practical. After being successfully shortlisted, you will be invited to a 30-45 minute online interview with a member of the curriculum team. Interviews are held every Thursday morning.

**I don't have my educational certificates?**

As part of the joining process, applicants are required to email high quality copies of all educational qualifications and supporting documents. These include GCSE certificates, A Level Certificates (if requested), Degree Certificate and Transcript, Birth Certificate, Photo ID, and proof of residence.

If you do not have your educational certificates, you will need to contact the examination boards in order to arrange a certificate or electronic confirmation letter.

# Ffioedd: Rhan Amser

**Faint mae'r cwrs yn ei gostio?**

Ewch i'r dudalen Ffioedd ac Chyllid TAR am fwy o wybodaeth. Ar y llwybr rhan-amser, byddwch yn talu'r ffioedd eich hun yn uniongyrchol i'r Brifysgol Agored.

**A oes cyllid ar gael ar gyfer y llwybr rhan-amser?**

Os ydych ar y llwybr TAR Rhan-amser gallwch wneud cais am fenthyciad myfyriwr cais am hyd at £3,000 i helpu gyda chostau byw. Ewch i Cyllid Cymru am ragor o wybodaeth.

Ar gyfer y rhai, efallai y bydd gennych hawl hefyd i grant cymhelliant hyfforddi athrawon gan Lywodraeth Cymru. Gall rhai myfyrwyr uwchradd hawlio grant cymell hyfforddi athrawon o hyd at £15,000 a grant Iaith Athrawon Yfory o £5,000. Gall myfyrwyr Uwchradd a Chynradd ar y llwybr rhan-amser hefyd fod yn gymwys i hawlio grant cymell Lleiafrifoedd Ethnig o £5,000.

**Gweler yma am wybodaeth am gostau astudio ychwanegol**

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Fees: Part Time

**How much does the course cost?**

Visit the PGCE Fees and Funding page for more information. On the part-time route, you will pay the fees yourself directly to the Open University.

**Is there funding available for the part-time route?**

If you are on the Part-time PGCE route you can apply for a student loan. Visit Finance Wales for more information. You can also apply for up to £3,000 in funding to help with living costs while you study.

Secondary students may be may also be entitled to a teacher training incentive grant from the Welsh Government of up to £15,000; a Iaith Athrawon Yfory grant of £5,000.

Secondary and Primary students on the part-time pathway may also be eligible to claim a £5,000 Ethnic Minority incentive grant.

**Please see here for information regarding additional costs of study**

# Ffioedd: Cyflogedig

**Faint mae'r cwrs yn ei gostio?**

Ar y llwybr Cyflogedig, caiff eich costau astudio eu talu'n llawn gan grant hyfforddi gan Lywodraeth Cymru. Telir y grant yn uniongyrchol i'r Brifysgol.

**Faint fyddaf yn cael fy nhalu ar y llwybr cyflogedig?**

Bydd y cyflog a dderbynnir gan fyfyrwyr fel arfer yn cael ei osod ar bwynt 1 o leiaf ar y raddfa gyflog athrawon heb gymhwyso. Mae hwn yn gyflog llawn amser (nid yn ystod y tymor), a delir i chi gan eich Ysgol Gyflogwr.

**A oes cyllid ar gael ar gyfer y llwybr cyflogedig?**

Sylwch nad yw myfyrwyr cyflogedig yn gymwys i gael benthyciadau myfyrwyr, grantiau cynhaliaeth neu fwrsariaethau gan Lywodraeth Cymru.

**Gweler yma am wybodaeth am gostau astudio ychwanegol**

# Fees: Salaried

**How much does the course cost?**

On the Salaried route, your study costs are fully covered by a training grant from the Welsh Government. The grant is paid directly to the University.

**How much will I be paid on the salaried route?**

The salary received by students will normally be set at at least point 1 on the unqualified teacher salary scale. This is a full-time salary (not during the term), paid to you by your Employer School.

**Is there funding available for the salaried route?**

Please note that salaried students are not eligible for student loans, maintenance grants or bursaries from the Welsh Government.

**Please see here for information regarding additional costs of study**

# Cwestiynau Cyflym

**Ble gallaf ganfod mwy o wybodaeth am y cymhwyster TAR?**

Mae disgrifiad llawn ar dudalennau gwefan TAR Cymru.

**Sut mae fy ysgol yn dod yn bartner?**

I ganfod sut y gall eich ysgol ddod yn ysgol bartner TAR ewch i'n tudalen Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) Y Brifysgol Agored i weld sut allai'ch ysgol chi ddod yn ysgol bartner TAR.

# Quick Questions

**Where can I find more information about the PGCE qualification?**

You can find the full qualification description on the PGCE in Wales pages of our website.

**How does my school become a partner?**

To find out how your school can become a PGCE partner school Visit our OU Initial Teacher Education (ITE) Partnership page.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru